



Tyrd, O Ysbryd Creawdwr, tyrd!

Llythyr Bugeiliol at Deulu Asaph oddi wrth Esgob Gregory
Dydd Mercher, 3rd Mehefin, 2020

Yr eiliad sy'n fy ngwefreiddio bob tro mewn gwasanaeth Ordeinio yw pan fydd y ddefod yn diflannu am funud a phawb yn uno gyda'n gilydd i ganu un o emynau mwyaf hynafol yr Eglwys, y Veni Creator (Tyrd, Ysbryd Glân, Greadwdwr mawr, ymwêl â'th weision ar y llawr; Â'th ras cyflenwa oddi fry, galonnau'r rhai a greasit ti.) Wrth gael ei chanu mewn plaengan, yn ddigyfeiliant os bo'n bosibl, rwy'n gallu gweld ar ôl yr holl godi at yr uchafbwynt, a chyn i ni ddod at yr ordeiniadau mewn gwirionedd, fod popeth arall yn diflannu ac mai'r cyfan rydyn ni'n ei wneud yw gofyn am weithred drugarog yr Ysbryd Glân, yr unig un sy'n gallu rhoi ystyr ac arwyddocâd i bopeth rydym yn ei wneud yn y gwasanaeth hwnnw.

Os yw'r Tad yn dragwyddol ac yn anfeidrol, y tu hwnt i'n gafael, a gweinidogaeth ddaearol y Mab ddwy fil o flynyddoedd yn ôl, mae'r Ysbryd Glân yn dal yn rhodd ddiiddiwedd Duw i'w bobl i fod gyda ni, wrth ein hochr. Yn yr efengyl yn ôl Ioan, mae yna, ym Mhenodau 14 ac 16, yn yr un ffurf fel ag mewn cymaint o ddarnau eraill, ddau fyfyrddod estynedig gan Iesu ar weinidogaeth yr Ysbryd Glân. Gelwir Ysbryd Duw yno yn "'ddiddanydd" neu "eiriolwr" (*paraclete*), term yn y Groeg sy'n golygu 'un wedi'i alw i fod wrth ochr". Mae'r enw'n cael ei gyfieithu weithiau fel "eirolwr" neu "cynghorwr" ond nid yw'r un o'r ddau air yn gwneud cyfiawnder â'r enw, oherwydd mae'r *paraclete* yn dod wrth ein hochr, i weithredu ar ein rhan, i ddod â ni i bresenoldeb Duw. "Ni wyddom ni sut y dylem weddio, ond y mae'r Ysbryd ei hun yn ymbil trosom ag ocheneidiau y tu hwnt i eiriau" (Rhufeiniaid 8.26)

Y Sulgwyn yw'r hanner canfed diwrnod ar ôl y Pasg, sef tua'r un adeg â'r ŵyl Iddewig Shavuot, gan fod y Pasg tua'r un pryd â Gŵyl y Bara Croyw. Dyma'r diwrnod mae'r Beibl yn ei gofnodi fel y digwyddiad pan gafodd y disgyblion eu trawsnewid gan Ysbryd Duw, oedd yn cael ei ddatgelu fel gwynt a thân, yn eu hanfon allan gyda dewrder ac angerdd i gyhoeddi'r Atgyfodiad. Ac mae'r ysbryd yn aros gyda ni byth ers hynny. Mae gwaith yr Ysbryd yn cael ei addo ym mhob Bedydd, yn cael ei alw ym mhob gweddi a dyma'r Ysbryd sy'n rhoi bywyd i ffydd. Credaf fod yr Ysbryd yn gweithio ym mhob sefyllfa i ddod â bywyd allan o farwolaeth, goleuni allan o dywyllwch, cariad allan o drallod a gobaith allan o anobaith. Yr Ysbryd sy'n sibwrdd wrthym wrth i ni weddio ac sy'n ein procio wrth i ni fyw ein disgyblaeth. Yr Ysbryd yw ein heiriolwr, oherwydd mae'n ein gwneud yn ddigon beiddgar i chwilio am ras Duw ac yn ein clymu mewn cymundod â'r Tad a'r Mab. Soniodd St Awstin fod yr Ysbryd fel y Cariad sy'n clymu'r Tad a'r Mab ac sydd yn ein clymu ni wrth fywyd Duw. Mae'r Ysbryd hefyd yn ceisio ein harwain ar lwybr llawnder bywyd. "Pan fyddwch am droi i'r dde neu i'r chwith, fe glywch â'ch clustiau lais o'ch ôl yn dweud "Dyma'r ffordd. Rhodiwch ynddi."

Credaf fod llais Duw yn siarad gyda ni yn ein calonnau, os byddwn yn ein hyfforddi'n hunain i wrando. Gallai rhywun ddweud wrthyf "Mae fy meddwl yn llawn meddyliau, sut allaf i wybod pa un ohonynt yw'r Ysbryd?" ond dyna ble mae llonyddwch yn helpu, mae dysgu mesur llais Duw trwy'r Ysgrythur a gweddi ac addoli a chyda ein cyd Gristnogion a thystiolaeth yr Eglwys trwy dwy fil o flynyddoedd, yn ein cynorthwyo ni i'w ddirnad.

Yn anad dim, mae'r Ysbryd yn ceisio ein hannog a'n gwroli. A Chariad yw'r Ysbryd. Pan fyddwn yn cael ein procio i ofalu am ein cymydog, yr Ysbryd sydd yn gweithio ynom ni; pan fyddwn yn teimlo tosturi dros y gwan neu'r dieithryn, yr Ysbryd sydd yn ein harwain at esiampl Iesu o gariad yn cael ei ymarfer er budd rhywun arall.

Gadewch i ni ganiatáu i'r Ysbryd wneud ei gartref ynom ni. Gadewch i ni ddefnyddio'r Sulgwyn i ofyn iddio ein newid a'n ffurfio. Gadewch i ni ei wahodd i arwain ac i ffurfio Teulu Asaph. Tyrd, Ysbryd Sanctaidd, tyrd!

+gregory/lanerwy